

**ARCHWILIAD Cynllun Datblygu Lleol**  
**Amnewid Merthyr Tudful**  
[www.merthyr.gov.uk/ldpexamination](http://www.merthyr.gov.uk/ldpexamination)

**Arolygydd: PAUL SELBY** BEng (Anrh) MSc MRTPI

**Swyddog y Rhaglen: TRACEY SMITH**

T: 07753 414078

E: [tracey.smith@merthyr.gov.uk](mailto:tracey.smith@merthyr.gov.uk)

Cyfeiriad: At sylw Swyddog y Rhaglen CDLI, Uned 5,  
Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful  
CF48 4TQ

I holl Ymatebwyr Ymgynghoriad Adnau a Newidiadau â Ffocws

Ein Cyf: PS/TS

25 Ebrill 2019

Annwyl Syr / Madam

**Archwiliad i gadernid CDLI Amnewid Merthyr Tudful**

Fy enw i yw Paul Selby. Cefais fy mhenodi gan Weinidogion Llywodraeth Cymru i fod yn Arolygydd Cynllunio i arwain archwiliad annibynnol o Gynllun Datblygu Lleol Amnewid Merthyr Tudful (CDLI).

Gwnaeth y Cyngor ymgynghori ar y CDLI Amnewid o 12 Chwefror i 9 Ebrill 2018, ac ar y Newidiadau â Ffocws i'r CDLI o 21 Ionawr i 4 Mawrth 2019. Y Cynllun y byddaf i'n ei archwilio yw'r [CDLI fel y'i diwygiwyd gan y Newidiadau â Ffocws \(Rhagfyr 2018\)](#)[SD01].

Yr wyf yn ysgrifennu atoch oherwydd gwnaethoch chi neu eich sefydliad sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad am y CDLI Adnau neu Newidiadau â Ffocws.

Tracey Smith yw Swyddog y Rhaglen a fydd yn fy nghynorthwyo i gyda'r archwiliad. Er ei bod hi wedi cael ei phenodi gan y Cyngor, bydd hi'n gweithio i mi wrth weinyddu'r archwiliad a'r gwrandawiadau a hynny'n annibynnol o'r Cyngor. Dylai pob gohebiaeth a chyflwyniad sy'n berthnasol i'r archwiliad gael eu hanfon at Tracey, a gellir cysylltu â hi gan ddefnyddio'r manylion a ddangosir ar frig y llythyr hwn.

**Cyfranogi mewn gwrandawiadau a'r dyddiad cau i ofyn i gyfranogi.**

Bydd yr archwiliad yn cynnwys cyfres o wrandawiadau cyhoeddus a gynhelir yng **Nghanolfan Orbit, Parc Busnes Rhydycar, Merthyr Tudful CF48 1DL**. Rwyf yn disgwyl y bydd y gwrandawiadau hyn yn dechrau ar **25 Mehefin 2019** a byddant yn parhau tua phythefnos.

Cafodd [Drafft Rhaglen Gwrandawiadau](#) [ED003], yn cynnwys rhestr o gyfranogwyr arfaethedig ac amlinelliad o'r materion i'w trafod eu cyhoeddi ar y [examination website](#) <http://www.merthyr.gov.uk/LDPexamination>. **Nodwch fod hon yn ddogfen 'fyw' sy'n amodol ar newid.** Fy nod yw cyhoeddi'r amserlen derfynol ar gyfer y gwrandawiadau, rhestr derfynol o gyfranogwyr ar gyfer pob sesiwn, a rhestr fanwl o faterion, problemau a chwestiynau, erbyn **10 Mai 2019**.

Bydd y gwrandawiadau yn agored i'r cyhoedd arsylwi arnynt, ond dim ond y rheini sydd wedi gwneud y sylwadau perthnasol yn ystod y cyfnod ymgynghori sy'n gymwys i gyfranogi. Cafodd y rheini sydd eisoes wedi dynodi i'r Cyngor eu bod am gael eu clywed, eu haseinio i'r sesiynau perthnasol fel y dangosir ar y rhaglen gwrandawiadau drafft. Mae'r rheini sy'n gymwys i ofyn i fynychu'r sesiynau hyn (gan eu bod wedi gwneud y sylwadau perthnasol) hefyd wedi eu rhestru, ond rhaid iddynt ofyn i gyfranogi. Os ydych am siarad mewn gwrandawiad ond heb eich rhestru ar y rhaglen, a'ch bod chi wedi gwneud sylw yr ydych yn ystyried ei fod yn eich gwneud yn gymwys i roi tystiolaeth ar lafar yn y gwrandawiad hwnnw, cysylltwch â Swyddog y Rhaglen cyn gynted ag sy'n bosibl. Fodd bynnag, hoffwn bwysleisio y rhoddir yr un faint o bwysau i dystiolaeth lafar a roddir yn ystod gwrandawiadau ag a roddir i sylwadau ysgrifenedig a wnaed eisoes.

P'un a ydych chi wedi cael eich dynodi fel cyfranogwr ar y rhaglen ddrafft ai peidio, **y mae'n HANFODOL eich bod chi'n CADARNHAU gyda Swyddog y Rhaglen eich bwriad i siarad mewn sesiwn gwrandawid cyn gynted ag y bo'n bosibl ond ddim hwyrach na 10 Mai 2019. Os na chafodd eich cyfranogiad mewn gwrandawriad ei gadarnhau erbyn y dyddiad hwn byddaf yn tybio eich bod yn fodlon i'ch safbwyntiau gael sylw drwy'r sylwadau ysgrifenedig, ar wahân i'r hyn y gallech fod wedi ei ddatgan yn flaenorol.** Gwerthfawrogir eich cydweithrediad ynghylch hyn.

Byddai hefyd o gymorth i Swyddog y Rhaglen pe byddech yn gallu cadarnhau eich manylion cyswllt, yn enwedig eich cyfeiriad e-bost (os oes un gennych) oherwydd caiff cyfathrebiadau'r dyfodol eu harwain yn electronig gyhyd ag y bo'n bosibl. Dyfynnwch eich ID Cynrychiolydd ar frig y llythyr hwn ym mhob gohebiaeth.

### **Gwybodaeth a chanllawiau am yr archwiliad**

Mae gwefan yr archwiliad [www.merthyr.gov.uk/LDPexamination](http://www.merthyr.gov.uk/LDPexamination) yn darparu gwybodaeth gyfredol am yr archwiliad a'r gwrandawriadau. Caiff dogfennau a gyflwynir gan yr Archwiliwr, Swyddog y Rhaglen, y Cyngor ac eraill eu cyhoeddi yn adran [Llyfrgell yr Archwiliad](https://www.merthyr.gov.uk/resident/planning-and-building-control/ldp-examination-library/) y wefan o dan 'Dogfennau Archwilio'. Dylech wirio'r wefan hon yn rheolaidd am y wybodaeth ddiweddaraf, gan gynnwys newidiadau i'r rhaglen.

Ni chaiff Cyfarfod Cyn-gwrandawriad ei gynnal ar gyfer yr archwiliad hwn. Yn lle hynny, cafodd [Nodiadau Canllaw'r Arolygydd](#) [ED002] ei gyhoeddi ar y wefan ochr yn ochr â'r llythyr hwn. **Sicrhewch eich bod yn darllen y rhain yn ofalus a chydymffurfio â nhw yn ystod yr archwiliad.**

Dylai cyfranogwyr nodi y byddaf yn ysgrifennu at y Cyngor gyda rhai cwestiynau cychwynnol o ran y DCLI a'i sylfaen dystiolaeth. Mae hyn er mwyn fy nghynorthwyo i lunio rhestr fanwl o'r materion, problemau a chwestiynau. Caiff y llythyr hwn a'u hymatebion eu cyhoeddi ar wefan yr archwiliad.

Mae'r Cyngor yn darparu mynediad i'r we mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Gellir dod o hyd i fanylion yng nghymal 3.3 [Nodiadau Canllaw'r Arolygydd](#) [ED002]. Dylai pawb sydd am weld copïau caled o ddogfennau'r archwiliad gysylltu â Swyddog y Rhaglen a fydd yn hapus i gynorthwyo.

### **Cyfieithu a chymorth arbennig mewn gwrandawriadau**

Caiff gohebiaeth ei groesawu'n gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg a bydd dogfennau'r archwiliad ar gael yn ddwyieithog. Pan fydd rhai o'r cyfranogwyr neu bob un ohonynt yn mynegi y byddai'n well ganddynt gyfathrebu yn y Gymraeg, caiff offer cyfieithu ar y pryd ei ddarparu. Os ydych chi'n bwriadu siarad yn Gymraeg mewn gwrandawriad, gwerthfawrogir pe byddech yn gallu cadarnhau hynny gyda Swyddog y Rhaglen cyn gynted â phosibl cyn y digwyddiad fel y gall y Cyngor wneud y trefniadau angenrheidiol. Ni chaiff peidio â'n hysbysu o flaen llaw unrhyw effaith ar eich hawl i gyfranogi yn y Gymraeg, ond gall beri oedi wrth i wasanaeth cyfieithu ar y pryd gael ei drefnu.

Dylai cyfranogwyr sydd â gofynion penodol ac ag angen cymorth yn ystod yr archwiliad gysylltu â Swyddog y Rhaglen cyn gynted â phosibl. Nodwch y bydd system clywed "lŵp" ar gael yn y gwrandawriadau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y llythyr hwn cysylltwch â mi drwy Swyddog y Rhaglen.

Yn gywir

*Paul Selby*

Swyddog Cynllunio

cc Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful